

Canllawiau rhywogaethau coed

Cyfarwyddyd ar ddewis rhywogaethau coed Diweddariad Awst 2015

Gwella eich gwybodaeth er mwyn cynorthwyo gyda dewis rhywogaethau

Awst 2015 Diweddariad

Yn unol â Strategaeth Cymru ar gyfer Coetiroedd a Choed a'r cyfarwyddyd polisi cysylltiedig rydym wedi dechrau cynyddu'r amrywiaeth o rywogaethau coed a ddefnyddir yng Nghymru ond gwyddom mai cyfyngedig yw'r wybodaeth am rai rhywogaethau coed a bod cyflenwad hadau ar gyfer rai rhywogaethau coed yn gyfyngedig neu heb fod ar gael o gwbl. Drwy weithio gydag ymchwil coedwigoedd, planhigfeydd ac amrywiaeth o asiantaethau cefnogi eraill rydym yn dal i fyny'n gyflym iawn â'r wybodaeth sydd ei hangen er mwyn cefnogi rheolwyr yn eu dewisiadau ynghyd â'r gallu i dyfu rhai o'r rhywogaethau hyn na chawsant eu tyfu mewn niferoedd sylweddol mewn planhigfeydd coed ym Mhrydain. Diben y ddogfen hon yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a staff gweithredol am rywogaethau coed, tarddle, cyflenwad hadau a phlanhigion fydd o gymorth i gefnogi penderfyniadau ar ddewis rhywogaethau coed ac yn help i hysbysu eich gofynion gyda golwg ar gyflenwadau planhigion yn y dyfodol.

Er mwyn ategu'r dewisiadau hyn rydym wedi dosbarthu'r rhywogaethau unigol i dri grŵp eang, A, B a C yn ôl eu gwerth posib. Rhoddir argymhellion ar ddefnyddio pob rhywogaeth yn y dyfodol a nodir y lefel wybodaeth bresennol am ddewis tarddle.

Categori A - Prif Rhywogaethau - Mae'r rhain yn cael eu defnyddio'n helaeth ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw broblemau gyda chyflenwi planhigion. Er y gellid argymhell cynyddu neu leihau eu defnydd o bosib, byddant yn parhau i fod yn elfen fawr o'r coetiroedd rydym yn eu rheoli yng Nghymru.

Categori B - Mân Rywogaethau - Mae digon o wybodaeth am y rhywogaethau hyn i ddechrau eu plannu neu gynyddu eu defnydd o hyn ymlaen, ond gall fod dal problemau gyda chyflenwi a rhaid i chi wirio a ydynt ar gael. Rydym wedi nodi swyddogaeth benodol yn achos y rhywogaethau hyn a byddwn yn hybu defnydd cynyddol o'r rhywogaethau hyn cyhyd â'u bod yn cwrdd â'ch amcanion.

Categori C – Rhywogaethau Eilaidd – Mae'r rhain yn rhywogaethau lle mae'r wybodaeth am ba mor addas ydynt i'w defnyddio yng Nghymru yn gyfyngedig ar hyn o bryd neu maent wedi eu categorio fel elfen fechan mewn cymysgeddau coetir brodorol yn unig. Mae angen i ni wella ein gwybodaeth o'r rhain cyn bod plannu sylweddol yn cael ei wneud oherwydd mae'n bosib mai swyddogaeth fechan yn unig fydd gan y rhywogaethau hyn yng Nghymru. Rhaid cytuno i ragbrofi rhai rhywogaethau a hynny ar lefel genedlaethol neu leol. Mae'n debyg y bydd argaeledd hadau a choed yn broblem hefyd os bydd galw am niferoedd sylweddol ohonynt.

Yn ein **Cyfarwyddyd i gynyddu'r amrywiaeth rhywogaethau coed yng Nghymru** cafodd 55 o rywogaethau eu hadnabod gennym ac mae'r rhain, o'r *FC Ecological Site Classification*, yn addas i'r amrywiaeth o safleoedd o wahanol fathau sydd yng Nghymru. Rydym wedi ychwanegu at hyn nifer o fân rywogaethau coed brodorol fel y nodir yn Ffigur 4.3 o Fwletin 112 – 'Creating New Native Woodlands', John Rodwell a Gordon Patterson. **Noder nad rhestr derfynol o goed brodorol yw hon ond mae yn cynnwys y rhan fwyaf o'r rhywogaethau sy'n debygol o gael eu dewis ar gyfer eu plannu yng Nghymru.**

Mewn rhestr ar wahân islaw'r tabl, rydym hefyd wedi cynnwys y rhai hynny sy'n cael eu rhestru yn yr un llyfryn, Ffigur 4.4 fel prif ac isrywogaethau prysglwyni ar gyfer mathau newydd o goetiroedd brodorol. Gellir defnyddio'r coed a'r llwyni brodorol yma i'w plannu fel elfennau o goetiroedd brodorol newydd neu goetiroedd sydd i'w hadfer.

Ni ddylid defnyddio'r ddogfen hon ar ei phen ei hun; nid yw'n cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch - dylid ei defnyddio yn unol â Chyfarwyddyd gwreiddiol CNC ar amrywiaeth rhywogaethau coed (Yn cael ei adolygu ar hyn o bryd), cyfarwyddyd diweddaraf FR (<http://www.forestry.gov.uk/fr/treespecies>) neu <http://www.silvifuture.org.uk> ac unrhyw gyhoeddiadau sydd ar gael (Gweler Llyfryddiaeth).

Rhywogaeth	Categori	Cynhenid i Gymru (Y/N)	Manylion y Tarddle	Defnydd cyfredol a argymhellir yng Nghymru	Argaeledd tebygol hadau/coed
Aethnen (<i>Populus tremula</i>)	B	Y	Mae rhagbrofion cyfyngedig o nifer fechan o glonau o'r Alban wedi dangos parhad da a thwf rhesymol o ddefnydd brodorol, ond mae yna glonau Sgandinafaidd dethol sy'n gallu rhoi graddfeydd tyfu cyflymach.	Dylid cynyddu'r rhagbrofion ar y rhywogaeth hon ar amrywiaeth o safleoedd yng Nghymru fel elfen o gellioedd conwydd (conifer) a choed llydanddail (Gan gynnwys cymysgeddau brodorol). Dylid profi fel rhywogaeth ar gyfer Coedwigaeth Cylchdro Byr.	Dim hadau ar gael ar hyn o bryd ond gellir trefnu eu cael ond maent yn debygol o fod yn ddrud iawn. Mae'n bosib bellach storio'r hadau hyn am nifer o flynyddoedd, felly gallech ystyried eu casglu ar gyfer y blynyddoedd i ddod—gofynnwch am gyngor ynghylch y posibilrwydd o gyffion wedi'u gwella ar gyfer rhagbrofion am <i>SRF</i>
Bedwen Lwyd (<i>Betula pubescens</i>)	A	Y	Dylid ffafrio ffynonellau hadau o safon dda ym Mhrydain. Ar safleoedd hafal mae hon yn tueddu tyfu'n arafach na'r fedwen arian ac mae ffurfiant ei boncyff yn llai ffafriol. Dylech ystyried boncyff wedi'i wella os gellir ei gyrchu ac os yw'n bwrpasol i'r amcanion. Mae cael cyffion o ffynhonnell hadau sydd ar dir uchel cywerth yn bwysig.	Yn addas ar gyfer safleoedd gwlypach. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyrchu o ffynhonnell hadau sydd ar dir uchel cywerth. Ystyriwch hon ar gyfer <i>SRF</i> - cynhyrchu biomas gan ddefnyddio boncyff wedi'i wella. Ymchwil a gwybodaeth gyfredol ar gael os oes angen.	Hawdd ei chael ond, yn dibynnu ar eich amcanion, dylech ystyried y posibilrwydd o adfywio Naturiol. Hefyd, ystyriwch foncyff wedi'i wella ar gyfer rhagbrofion biomas - mynnwch gyngor ar hyn.
Bedwen Arian (<i>Betula pendula</i>)	A	Y	Dylid defnyddio ffynonellau hadau Prydeinig safonol neu ddefnyddiau o raglenni bridio. Osgowch ffynonellau hadau o hinsoddau cyfandirol mwy Ewropeaidd. Y dewis cyntaf fel arfer fydd Bedwen sydd wedi'i hadffurfio'n naturiol ond ystyriwch yr opsiwn o gael bedwen	Gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis hadau o dir uchel cywerth. Ar gyfer safleoedd sychach yn unig. Hefyd ystyriwch foncyff wedi'i wella lle mae cynhyrchu yn nod.	Angen gwirio argaeledd cyffion wedi'u gwella. Gwnewch yn siŵr bod angen ei phlannu; pa gyfleoedd sy'n bod ar gyfer adffurfio naturiol?

Rhywogaeth	Categori	Cynhenid i Gymru (Y/N)	Manylion y Tarddle	Defnydd cyfredol a argymhellir yng Nghymru	Argaeledd tebygol hadau/coed
			wedi'i gwella os yw hyn yn cyd-daro â'r nodau.		
Castanwydden Bêr (<i>Castanea sativa</i>)	B	N	Mae'r astudiaethau amrywiadau tarddle ym Mhrydain yn rhai diweddar iawn felly dylid cyrchu defnydd o gellioedd o safon ym Mhrydain neu o gellioedd dethol yng ngorllewin Ewrop.	Dechreuwch wneud mwy o ddefnydd o'r rhywogaeth hon yn arbennig yn Nwyrain Cymru ac ar diroedd uchel is yng Nghymru. Ei defnyddio yn lle'r Llarwydden (<i>larch</i>) ar y safleoedd gwell. Angen rhywfaint o ofal oherwydd bod nifer o glefydau, gan gynnwys <i>Phytophthora</i> a chlefyd Coed Castan, yn achosi pryder.	Ar gael
Cedrwydden Goch (<i>Thuja placata</i>)	B	N	Awgryma'r rhagbrofion tarddle cyfyngedig iawn sydd wedi'u cynnal y dylid ffafrio ffynonellau hadau o orllewin Washington neu Ynys Vancouver. Mae angen cadarnhau'r tarddle oedd mwyaf priodol. Mae rhai cellioedd lleol wedi eu hadnabod fel ffynonellau hadau. Angen adnabod mwy o'n gellioedd ni ein hunain. Gwnewch yn siŵr eich bod yn sicrhau tarddle da.	Dylid dechrau plannu fel mater o flaenoriaeth er mwyn cynyddu'r defnydd, naill ai mewn cymysgeddau pur neu syml (llynell).	Coed ar gael i nifer o darddle oedd.
Ceiriosen yr Adar (<i>Prunus padus</i>)	C	Y		Swyddogaeth fechan mewn rhai cymysgeddau llydanddail brodorol	Dim gwybodaeth

Rhywogaeth	Categori	Cynhenid i Gymru (Y/N)	Manylion y Tarddle	Defnydd cyfredol a argymhellir yng Nghymru	Argaeledd tebygol hadau/coed
Ceiriosen Ddu (<i>Prunus avium</i>)	B	Y	Mae'r wybodaeth am amrywiadau tarddle yn gyfyngedig, felly dylid ffafrio hadau o berllannau hadau neu gellioedd da ym Mhrydain; mae rhai clonau dethol ar gael. Dylech osgoi defnyddiau o ddwyrain a de Ewrop am nad ydynt wedi eu haddasu i'r amodau ym Mhrydain. Ystyriwch gyffion wedi'u gwella a mathau sy'n gwrthsefyll cancr.	Swyddogaeth fechan mewn rhai cymysgeddau llydanddail brodorol	Ar gael
Celynnen (<i>Ilex aquifolium</i>)	C	Y		Swyddogaeth fechan mewn rhai cymysgeddau llydanddail brodorol.	Ar gael.
Cerddinen Ddof/Morgannwg (<i>Sorbus domestica</i>)	C	Y	Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael am amrywiadau tarddle ym Mhrydain felly dylai tarddiad y planhigion fod yn lleol neu o'r cyfandir agos.	Dylid ei phlannu mewn rhagbrofion cyfyngedig yn unig fel elfen mewn celli. Elfen o goetiroedd brodorol.	
Cerddinen Wen (<i>Sorbus aria</i>)	C	Y		Swyddogaeth fechan mewn rhai cymysgeddau llydanddail brodorol	Ar gael.
Cerddinen Wylt (<i>Sorbus torminalis</i>)	C	N	Nid oes unrhyw ragbrofion tarddle wedi eu cynnal ym Mhrydain felly dylai'r planhigion ddod o ffynonellau sydd o darddiad lleol neu o'r cyfandir agos.	Dylid ei phlannu mewn rhagbrofion cyfyngedig yn unig fel elfen mewn celli. Elfen o goetiroedd brodorol.	?

Rhywogaeth	Categori	Cynhenid i Gymru (Y/N)	Manylion y Tarddle	Defnydd cyfredol a argymhellir yng Nghymru	Argaeledd tebygol hadau/coed
Cochwydden Arfor (<i>Sequoia sempervirens</i>)	B	N	Prin iawn yw'r rhagbrofion tarddle sydd wedi'u cynnal ym Mhrydain ond mae tarddleoedd mwy gogleddol (Gogledd Orllewin America) yn debygol o fod yn fwy gwydn mewn tywydd oer. Gall fod potensial ar gyfer casglu hadau sydd i'w cael yn lleol – mae rhai safleoedd wedi'u hadnabod yng Nghymru.	Rhywogaeth â blaenoriaeth er mwyn dechrau ar blannu ehangach yn arbennig mewn ardaloedd is sydd â dylanwad arfordirol.	Ar gael
Cochwydden Japan (<i>Cryptomeria japonica</i>)	B	N	Rhagbrofion tarddle cyfyngedig iawn yn unig sydd wedi'u cynnal ac mae cynhyrchu hadau o randiroedd ym Mhrydain yn annibynadwy; dylid cyrchu hadau o ran ogleddol y cynefin naturiol. Mae rhai cellioedd hadau posib wedi eu hadnabod yng Nghymru.	Potensial da iawn. Dylid ystyried plannu'r rhywogaeth hon ar gyfer gwneud defnydd helaethach ohoni. Ystyriwch ei defnyddio fel rhan o gymysgedd.	Mae dod o hyd i hadau yn dasg anodd iawn ar hyn o bryd ac mae ymchwiliadau ar y gweill. Gall defnyddio eich cellioedd eich hun ar gyfer hadau neu ddefnyddio toriadau fod yn bosib. Mae cellioedd hadau posib wedi eu hadnabod.
Collen Ffrengig (<i>Juglans regia</i>)	C	N	Rhagbrofion tarddle cyfyngedig iawn sydd wedi'u cynnal ac mae hyn yn awgrymu mai'r defnydd sy'n cael ei ffafrio yw'r mathau sy'n blaguro'n hwyr, sef y rhai gafodd eu hadnabod mewn rhaglenni bridio yn Ffrainc. Os nad oes gennyich ddiddordeb mewn tyfu coed cyll er mwyn cael cnau, dylech osgoi defnyddio defnydd a gyrchwyd o goed agored aeddfed sy'n aml yn wael eu ffurf.	Dylid ei phlannu mewn niferoedd bychain yn unig neu fel elfen fechan mewn cymysgeddau	Drud ac argaeledd cyfyngedig.

Rhywogaeth	Categori	Cynhenid i Gymru (Y/N)	Manylion y Tarddle	Defnydd cyfredol a argymhellir yng Nghymru	Argaeledd tebygol hadau/coed
Criafolen (<i>Sorbus aucuparia</i>)	A	Y	Prin yw'r wybodaeth am amrywiadau tarddle felly dylid cyrchu hadau o gellioedd ym Mhrydain sydd mewn ffurf dda, lle bynnag y bydd hynny'n bosib.	Dylech dderbyn adffuriant naturiol gan ei phlannu'n unig mewn ardaloedd lle nad oes unrhyw bosibilrwydd o NR.	Ar gael
Cypreswydden Lawson (<i>Chamacyparis lawsoniana</i>)	B	N	Ni chynhaliwyd unrhyw ragbrofion tarddle; dylid cyrchu hadau o gellioedd da ym Mhrydain neu o'r cynefinoedd naturiol. Dylid osgoi hadau a gasglwyd o gloddiau neu ffynonellau garddwrol eraill. Mae yna nifer o safleoedd lle mae'r goeden hon i'w gweld yng Nghymru a bydd rhai o'r rhain yn addas ar gyfer casglu hadau – angen ymchwilio ymhellach.	Mae ganddi'r potensial i fod yn bren da a gall fod o ddiddordeb. Er hynny, mae yna broblemau clefyd all fod yn achos pryder. Mae pathogenau pydredd gwreiddiau <i>P. cinnamomi</i> a <i>P. Lateralis</i> yn niweidiol iawn, a gallant fod yn glefydau angheuol yn achos cypreswydden Lawson. Mae'r Chamacyparis hefyd yn cael ei hystyried fel un sy'n dueddol iawn o gael y clefyd pydredd gwreiddiau <i>Armillaria</i> (ffwng melog).	Dim hadau cyfredol ar gael ac nid yw'n cael ei thyfu ar hyn o bryd yn y planhigfeydd. Er hynny, mae gan Gymru nifer o gellioedd Cypreswydden Lawson ac mae'n bosib y gallem ystyried casglu hadau o'r rhain; nodwch fod yna nifer o gellioedd Cypreswydden Lawson gwael a sicrhewch eich bod yn dod o hyd i stoc o ffynhonnell hadau o safon dda.
Cypreswydden Leyland (<i>Cupressocyparis leylandii</i>)	C	N	Defnyddir nifer o glonau mewn garddwriaeth, yn arbennig ar gyfer plygu gwrychoedd. Y clon 'Leighton Green' yw'r un a ddefnyddiwyd helaethaf mewn rhagbrofion coedwigoedd ym Mhrydain.	Posibilrwydd o gynyddu'r defnydd o'r rhywogaeth hon.	Argaeledd cyfyngedig o ddefnydd wedi'i glonio.
Derwen Goch (<i>Quercus rubra</i>)	B	N	Ychydig iawn o ragbrofion tarddle a gynhaliwyd ym Mhrydain a phrin yw'r rhandiroedd coediog; dylid cyrchu hadau naill ai o dde Canada neu o gellioedd da yng ngogledd orllewin Ewrop. Nifer o gellioedd	Potensial ar gyfer ei defnyddio yn Nwyrain a De Cymru fel coeden i gymryd lle'r Llarwydden (Larch). Potensial da.	Dim hadau ar gael ar hyn o bryd ac nid yw'n cael ei thyfu mewn planhigfeydd ar hyn o bryd.

Rhywogaeth	Categori	Cynhenid i Gymru (Y/N)	Manylion y Tarddle	Defnydd cyfredol a argymhellir yng Nghymru	Argaeledd tebygol hadau/coed
			yng Nghymru allai ddod yn ffynhonnell hadau?		
Dail Bach (<i>Tilia cordata</i>)	B	Y	Nid oes rhagbrofion tarddle wedi eu cynnal ym Mhrydain ac mae cynhyrchu hadau yn broses ysbeidiol yn y wlad hon, felly dylai'r planhigion ddod naill ai o darddiad lleol neu dylid eu cyrchu o gellioedd sydd mewn cyflwr da yn y wlad hon neu yng ngorllewin Ewrop.	Posibilrwydd da o gynyddu ei defnydd fel elfen o goetir brodorol.	Argaeledd cyfyngedig – yn ystyried casglu hadau o ffynonellau lleol.
Derwen Mes Coedynnog (<i>Quercus robur</i>)	A	Y	Ardderchog	Dylid cynyddu ei defnydd er mwyn ehangu coetir Brodorol yng Nghymru. Cyngor pellach ar rywogaethau brodorol i ddilyn.	Ystyriwch gasgliadau o ffynonellau lleol priodol er mwyn cyflenwi planhigfeydd.
Derwen Mes Di-goes (<i>Quercus petraea</i>)	A	Y	Dylid ffafrio tarddle oedd o gellioedd hadau dethol ym Mhrydain neu ogledd orllewin Ewrop – efallai y bydd angen ystyried tarddle lleol ar gyfer safleoedd AW pwysig.	Dylid cynyddu ei defnydd er mwyn ehangu coetiroedd brodorol yng Nghymru. Cyngor pellach am rywogaethau brodorol i ddilyn gan gynnwys dewis tarddle priodol ar safleoedd AW.	Ar gael. Rhai yn cael eu casglu gan CNC i'w defnyddio ar WGWE.
Ewcalyptws Gunn (<i>Eucalyptus gunnii</i>)	C	N	Mae rhagbrofion tarddle wedi awgrymu y bydd rhai defnyddiau yn gwrthsefyll hyd at -20°C; dylid dewis yr hadau o ardaloedd tir uchel yn Tasmania er mwyn sicrhau'r gwytnwch gorau posib yn erbyn oerni.	Dylid cyfyngu ei ddefnydd i brofion mewn rhagbrofion biomas (Coedwigaeth Cylchdro Byr). Y goeden ewcalyptws hon, o'r holl goed ewcalyptws, yw'r orau i'w defnyddio am ei bod yn fwyaf diogel rhag barrug.	Gellid ei thyfu mewn planhigfeydd pe bai angen. Argaeledd hadau heb fod yn wybyddus.

Rhywogaeth	Categori	Cynhenid i Gymru (Y/N)	Manylion y Tarddle	Defnydd cyfredol a argymhellir yng Nghymru	Argaeledd tebygol hadau/coed
Ewcalyptws Dail Gloyw (<i>Eucalyptus nitens</i>)	C	N		Dylid ei phlannu mewn rhagbrofion cyfyngedig yn unig. Yn fwy tueddol i'w niweidio gan rew na'r gunnii ond yn fwy cadarn.	
Ffynidwydden Arian (<i>Abies alba</i>)	B	N	Awgryma'r rhagbrofion tarddle cyfyngedig a gynhaliwyd y dylid ffafrio ffynonellau hadau o'r weriniaeth Tsiec ac ardaloedd cyfagos yng nghanolbarth Ewrop.	Dylid cynyddu'r defnydd a wneir o'r rhywogaeth hon ond dylid ei phlannu fel isdyfiant yn unig er mwyn amrywio cellioedd CCF.	Nifer cyfyngedig o hadau ar gael; angen gwirio'r tarddiad.
Ffawyddden Ddeheuol Rauli (<i>Nothofagus alpine</i>) (Syn. <i>N. Procera</i> a <i>N. nervosa</i>)	B	N	Dylid ffafrio tarddle o ran ddeheuol y cynefin naturiol neu o gellioedd o safon dda ym Mhrydain.	Dylech wirio'r wybodaeth ddiweddaraf ar y tueddiad i gael <i>Phytophthora pseudosyringae</i> . Angen gofal hyd nes y bydd gwell dealltwriaeth o'r tueddiad hwn ond ystyriwch wneud mwy o ddefnydd ohoni yng Ngorllewin Cymru fel coeden bosib yn lle'r Llarwydden (<i>larch</i>) mewn mannau lle mae rhew yn debygol o fod yn llai o risg.	Rhai lleiniau da ar gael ar gyfer hadau.
Ffawyddden Ddeheuol Roble (<i>Nothofagus obliqua</i>)	B	N	Dylid ffafrio tarddle o ran ddeheuol y cynefin naturiol neu o gellioedd o safon dda ym Mhrydain.	Defnyddiwch Rauli yn hytrach. Ond dylech ragbrofi cellioedd pellach yng Ngorllewin Cymru fel coeden bosib yn lle'r Llarwydden (<i>larch</i>) lle mae rhew yn debygol o fod yn llai o risg. Gweler y sylwadau ar y tueddiad i gael <i>Phytophthora</i> yn erbyn y Rauli uchod.	Ddim yn wybyddus

Rhywogaeth	Categori	Cynhenid i Gymru (Y/N)	Manylion y Tarddle	Defnydd cyfredol a argymhellir yng Nghymru	Argaeledd tebygol hadau/coed
Ffynidwydden Arian y Cawcasws/Nordmann (<i>Abies nordmanniana</i>)	C	N	Dim – chwiliwch am ffynonellau o'i chynefin naturiol i'w rhagbrofi	Dylid ei phlannu mewn rhagbrofion cyfyngedig yn unig. Yn fwy tebygol o blannu ffynidwydd arian eraill.	Gwiriwch y tarddiad – yn cael ei thyfu fel coed Nadolig efallai
Ffynidwydden Arian y Môr Tawel (<i>Abies amabilis</i>)	C	N	Tarddleoedd o orllewin Washington yn cael eu ffafrio.	Dylid ei phlannu fel isdyfiant yn unig mewn cnydau CCF. Yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Ffynidwydden Arian o Ewrop ond rhagbrofwch y rhywogaeth hon.	Dim hadau ar gael ar hyn o bryd.
Ffynidwydden Douglas (<i>Pseudotsuga menziesii</i>)	A	N	Argymhellir tarddleoedd o ardaloedd glan môr Washington ar gyfer rhannau mwy gorllewinol a chefnforol Prydain, tra gellir defnyddio defnyddiau o Raeadrau de Washington ar briddoedd addas mewn parthau sychach o ddwyrain Prydain.	Dylid cynyddu'r defnydd a wneir o'r rhywogaeth hon.	Ar gael
Ffynidwydden Fawr (<i>Abies grandis</i>)	B	N	Dewis sy'n cael ei ffafrio – Washington Arfordirol	Bydd ffynidwydd eraill yn cael eu ffafrio fel arfer ond dylid gwneud rhywfaint o blannu, ond mewn cymysgeddau yn unig os yn bosib.	Yn cael ei thyfu ar hyn o bryd mewn niferoedd cyfyngedig yn y planhigfeydd. Anodd ei thyfu â gwreiddiau moel. Hadau ar gael (Tarddle – Vancouver).
Ffynidwydden Urddasol (<i>Abies procera</i>)	B	N	Dylid defnyddio tarddleoedd o fynyddoedd Washington neu Raeadr ogleddol Oregon neu o gellioedd o safon dda ym Mhrydain.	O werth er mwyn amrywio safleoedd pyrwydd (sbriws) tlotach ym mynydd-dir Cymru. Gall wrthsefyll yr oerfel. Defnydd posib mewn cymysgedd gyda SS.	Digonedd o hadau ar gael.

Rhywogaeth	Categori	Cynhenid i Gymru (Y/N)	Manylion y Tarddle	Defnydd cyfredol a argymhellir yng Nghymru	Argaeledd tebygol hadau/coed
				Problemau gydag ansawdd y pren felly mae'n fwy tebygol o fod o werth ar gyfer biomas yn hytrach na choed. Dewis arall da yn lle sbriws ar diroedd uchel.	
Gwernen yr Eidal (<i>Alnus cordata</i>)	C	Y	Dim ond ychydig blanhigfeydd rhagbrofi sydd wedi eu sefydlu ym Mhrydain ac ni chynhaliwyd unrhyw astudiaethau tarddle; dylid ffafrio hadau o gellioedd da yn y cynefin naturiol.	Defnydd posib mewn treialon cyfyngedig yn Ne Ddwyrain Cymru. Hefyd ar gyfer safleoedd adfer.	Gall fod yn anodd ei thyfu mewn planhigfeydd.
Gwernen Goch (<i>Alnus rubra</i>)	C	N	Wedi ei rhagbrofi ar amrywiaeth helaeth o safleoedd ym Mhrydain ac mae rhai astudiaethau tarddle wedi eu cynnal. Dylai'r hadau dewisol ddod o gellioedd da ym Mhrydain neu o arfordir Washington neu o Columbia Brydeinig.	Posibilrwydd o ddechrau plannu fel elfen o gnydau conwydd (coniffer). Rhywogaeth fyrhoedlog.	Ar gael ond angen gwirio
Helygen Frau (<i>Salix fragilis</i>)	C	Y			Gwiriwch gyda'r planhigfeydd
Helygen Ddeilgron (<i>Salix caprea</i>)	C	Y			Gwiriwch gyda'r planhigfeydd
Helygen Wen (<i>Salix alba</i>)	C	Y			Gwiriwch gyda'r planhigfeydd
Llarwydden Ewrop (<i>Larix decidua</i>)	-	N	-	Gohiriad ar blannu. Mae hon yn dal i gael ei thyfu mewn planhigfeydd ar hyn o bryd fel gwir groesiad (hybrid).	

Rhywogaeth	Categori	Cynhenid i Gymru (Y/N)	Manylion y Tarddle	Defnydd cyfredol a argymhellir yng Nghymru	Argaeledd tebygol hadau/coed
Llarwydden Groesryw (<i>Larix X eurolepis</i>)	-	N	-	Gohiriad ar blannu. Mae hon yn dal i gael ei thyfu mewn planhigfeydd ar hyn o bryd fel gwir groesiad (hybrid).	
Llarwydden Japan (<i>Larix kaempferi</i>)	-	N	-	Gohiriad ar blannu. Mae hon yn dal i gael ei thyfu mewn planhigfeydd ar hyn o bryd fel gwir groesiad (hybrid).	
Llwyfen Iydanddail (<i>Ulmus glabra</i>) Llwyfen Lloegr (<i>Ulmus procera</i>)	C	N	Dim gwybodaeth am amrywiadau tarddle ym Mhrydain felly dylid ffafrio ffynonellau hadau o gellieodd o safon dda ym Mhrydain	Defnydd posib fel elfen fechan yn unig o goetir brodorol Yr wybodaeth ar draws y colofnau yn cyfeirio at y Llwyfen Lydanddail yn unig	Argaeledd cyfyngedig
Masarnen (<i>Acer pseudoplatanus</i>)	B	N	Dylid ffafrio defnyddiau o gellieodd o safon dda ym Mhrydain neu gellieodd dethol yng ngorllewin Ewrop.	Yn dda fel elfen o goetiroedd cymysg. Dylid ystyried plannu cyfyngedig yn unig oherwydd mae'n aildyfu'n dda, felly dylid ei phlannu lle mae aildyfiant yn annhebyg.	Ar gael
Masarnen Dail Mawr (<i>Acer macrophyllum</i>)	C	N	Prin iawn yw nifer y rhandiroedd sydd wedi eu sefydlu ym Mhrydain ac nid oes unrhyw ragbrofion tarddle wedi eu cynnal; dylid ffafrio ffynonellau hadau o Washington.	Mae gan hon y potensial i fod yn rhywogaeth gynhyrchiol iawn ond hyd yma prin yw'r wybodaeth amdani felly dylid ei phlannu mewn rhagbrofion cyfyngedig yn unig.	Dim hadau ar gael ar hyn o bryd
Masarnen fach (<i>Acer campestre</i>)	C	Y		Swyddogaeth fechan mewn rhai cymysgeddau llydanddail brodorol	
Oestrwydden (<i>Carpinus betula</i>)	C	Y	Ni chynhaliwyd rhagbrofion tarddle ym Mhrydain felly dylid ffafrio	Dylid ei phlannu fel elfen yn unig o goetir brodorol. Ar gyfer cymysgeddau ac fel isdyfiant.	Yn cael ei thyfu mewn niferoedd bychain yn y planhigfeydd ar hyn o bryd.

Rhywogaeth	Categori	Cynhenid i Gymru (Y/N)	Manylion y Tarddle	Defnydd cyfredol a argymhellir yng Nghymru	Argaeledd tebygol hadau/coed
			ffynonellau hadau o gellioedd da ym Mhrydain neu o'r cyfandir agos.	Yn gynhenid i'r DG ond nid yw'n cael ei chydabod fel coeden sy'n gynhenid i Gymru	Mae hadau ar gael, wedi eu cyrchu o'r New Forest.
Onnen (<i>Fraxinus excelsior</i>)	-	Y	Dylid ffafrio defnyddiau o gellioedd o safon dda ym Mhrydain gyda tharddleuoedd yng ngogledd Ffrainc fel dewis arall yn ne Prydain.	Gohirio plannu oherwydd clefyd (<i>Chalara</i>) coed ynn.	-
Pinwydden Corsica (<i>Pinus nigra var. maritime</i>)	-	N		Ystyrir bod gohiriad ar ei phlannu oherwydd y clwyf <i>Dothistroma needle blight</i> ond gall fod yn briodol plannu niferoedd bychain ar gyfer defnydd penodol e.e. plannu ar safleoedd twyni tywod arfordirol fel Niwbwrch neu Pen-bre	Nid yw'n cael ei thyfu ar hyn o bryd.
Pinwydden Gamfrig (<i>Pinus contorta</i>)	B	N	Ni ddylid defnyddio tarddleuoedd yn ardaloedd arfordirol y De, tra bod tarddleuoedd yn Alaska yn gweddu orau i'w defnyddio mewn cymysgeddau meithrin. Os oes gellioedd pur yn cael eu plannu, yna dylid defnyddio Skeena neu darddleuoedd mewnol eraill – bydd cyngor arbenigol o gymorth.	Pryder ynghylch y tuedd i gael y clwyf <i>Dothistroma needle blight</i> . Potensial i'w defnyddio fel rhan o gymysgedd (llynell) mewn ardaloedd sbriws sydd â thuedd i 'heather check'. Peidiwch â diystyru defnyddio'r rhywogaeth hon - o ddefnyddio'r tarddle cywir ac mewn cymysgeddau bydd ganddi rôl i'w chwarae.	Ar gael
Pinwydden Macedonian (<i>Pinus peuce</i>)	B	N	Mae rhywfaint o hadau yn cael eu casglu o safleoedd yng Nghymru, neu chwiliwch am ffynonellau o gynefinoedd brodorol.	Dechreuwch gynyddu'r defnydd o'r rhywogaeth hon ond byddwch yn ymwybodol o broblemau sefydlu. Dylid gwirio'r tueddiad i gael y clefyd <i>Dothistroma needle blight</i> , ond	Nifer cyfyngedig o hadau ar gael o ffynonellau lleol. Tyfiant araf mewn planhigfa ac yn cymryd pedair blynedd fel arfer. Bydd goblygiadau cost i hyn. Mae rhai lleiniau

Rhywogaeth	Categori	Cynhenid i Gymru (Y/N)	Manylion y Tarddle	Defnydd cyfredol a argymhellir yng Nghymru	Argaeledd tebygol hadau/coed
				credir ei bod yn fwy ymwrthiannol na'r rhan fwyaf o goed pinwydd.	hadau lleol wedi eu hadnabod.
Pinwydden Monterey (<i>Pinus radiata</i>)	C	N	Rhagbrofion tarddle cyfyngedig iawn sydd wedi'u cynnal ym Mhrydain; gellid cyrchu hadau o fathau sy'n wydn mewn oerfel ac sydd wedi eu hadnabod mewn rhaglenni bridio mewn gwledydd eerial (Seland Newydd) neu, o bosib, o gellioedd sydd mewn cyflwr da ym Mhrydain.	Gall fod â'r potensial ar gyfer mwy o ddefnydd yng Nghymru ond mae'n agored i ddal amrywiaeth o blâu a chlefydau. Problemau rhew, felly dylid ei phlannu'n bennaf yn agos at yr arfordir.	Dim hadau ar gael ar hyn o bryd.
Pinwydden Wen (<i>Pinus strobus</i>)	C	N	Nid oes unrhyw ragbrofion tarddle wedi eu cynnal ym Mhrydain; dylai ffynonellau hadau o'r cynefin brodorol o New England i'r gogledd fod yn addas. Mae'r rhywogaeth wedi ymaddasu i hinsawdd oerllyd, laith gyda lefel goddefgarwch y coed i gysgod yn ganolraddol tra'u bod yn ifanc ond wedyn rhaid wrth olau cyflawn er mwyn sicrhau tyfiant da.	Dylid ei phlannu mewn rhagbrofion cyfyngedig yn unig. Rhywfaint o dystiolaeth ei bod yn gwrthsefyll y clwyf <i>Dothistroma needle blight</i> . Ond yn debygol o fod o ddefnydd mewn safleoedd arfordirol yng Nghymru. Planhigyn mwyaf tebygol mewn cymysgeddau gyda choed pinwydd eraill neu goed bedw.	Ar gael.
Pinwydden yr Alban (<i>Pinus sylvestris</i>)	A	N (Nid yw'n cael ei hystyried fel coeden sy'n gynhenid i Gymru)	Argymhellir defnyddio'r defnydd sydd ar gael o berllannau hadau er, yn achos gorllewin Prydain, dylid ystyried defnyddio hadau o barth gorllewinol y pinwydd brodorol.	Dylid parhau i'w phlannu fel celli bur yn ogystal ag mewn cymysgedd ond byddwch yn ymwybodol o'r peryglon ddaw gyda'r clefyd ' <i>Dothistroma needle blight</i> '. Yn debygol o gael ei defnyddio ar amrywiaeth o safleoedd o wahanol fath felly	Ar gael

Rhywogaeth	Categori	Cynhenid i Gymru (Y/N)	Manylion y Tarddle	Defnydd cyfredol a argymhellir yng Nghymru	Argaeledd tebygol hadau/coed
				sicrhewch fod tarddleoedd yn cael eu defnyddio'n gywir.	
Poplys cultivarau (<i>Populus deltoides</i> , <i>Populus nigra</i> , <i>Populus trichocarpa</i>)	C	N	Ceisiwch gyngor ar ddefnyddio clonau priodol neu gyrchu'r Aethnen Ddu er mwyn gwarchod y rhywogaeth	Efallai bod ganddi werth fel cyfrwng i ddarparu gorchudd coed cyflym ar rai safleoedd i gymryd lle coed llarwydd (<i>larch</i>) – (safleoedd hamdden, canolfannau ymwelwyr). Fel arall, rhagbrofion cyfyngedig yn unig.	Gwiriwch gyda'r planhigfeydd Noder mai'r Aethnen Ddu yw'r unig goeden frodorol o blith y rhywogaeth-au hyn.
Sbriwsen Norwy (<i>Picea abies</i>)	A	N	Mae tarddleoedd o ddwyrain Ewrop (e.e. Romania, de Gwlad Pwyl) yn cael eu ffafrio fel arfer. Cafwyd argymhelliad diweddar o blaid tarddleoedd o Ddenmarc ond dylech wirio hyn.	Dylech leihau'r defnydd o'r rhywogaeth hon i Orllewin ac ucheldiroedd Cymru neu fel elfen yn rhywle arall neu fel rhywogaeth faeth. Nid yw'n addas ar gyfer safleoedd mawnaidd neu safleoedd digysgod. Dylid cymryd gofal i beidio gwneud defnydd helaeth o'r rhywogaeth hon gan fod rhai cyfyngiadau safle a phroblemau sefydlu yn perthyn iddi. Ystyriwch ddefnyddio coed sbrws eraill fel Sbriwsen Serbia neu Sbriwsen y Dwyrain, gan y gall fod gan y ddwy raddfeydd tyfu tebyg.	Hawdd ei chael. Ystyriwch stoc mewn potiau.
Sbriwsen y Dwyrain (<i>Picea orientalis</i>)	C	N	Ni chynhaliwyd profion tarddle ym Mhrydain a phrin yw nifer y rhandiroedd coediog; dylid cyrchu hadau o'r cynefin naturiol.	Gall fod ganddi potensial sylweddol i ddisodli coed sbrws eraill sy'n llai gwrthsafol i sychder. Dylech ddechrau	Dim hadau ar gael ar hyn o bryd.

Rhywogaeth	Categori	Cynhenid i Gymru (Y/N)	Manylion y Tarddle	Defnydd cyfredol a argymhellir yng Nghymru	Argaeledd tebygol hadau/coed
				rhagbrofion gweithredol ar y rhywogaeth hon ledled Cymru.	
Sbriwsen Serbia (<i>Picea omorika</i>)	B	N	Prin yw'r dystiolaeth o amrywiadau tarddle; dylid ffafrio hadau o gellioedd da ym Mhrydain neu o'r cynefin naturiol.	Dylid dechrau gwneud mwy o ddefnydd o'r rhywogaeth hon fel dewis arall yn lle Sbriwsen Norwy yn ogystal â Sbriwsen Sitka. Yn fwyaf addas ar gyfer safleoedd tebyg i'r rhai hynny sy'n cael eu ffafrio gan Norwy. Noder y dylid plannu ar drwch o 4.0k/ha + er mwyn cael stocio llawn oherwydd y corun cul – ni fydd plannu islaw'r trwch hyn yn cyrraedd y potensial uchaf o ran YC.	Dylech adnabod safleoedd ar gyfer casglu hadau yn lleol.
Sbriwsen Sitka (<i>Picea sitchensis</i>)	A	N	Gwybodaeth ardderchog ar gael	Pryder ynghylch uchafiaeth SS a'r peryglon sy'n gysylltiedig â sychder. Dylid lleihau ei defnydd a c ni ddylid plannu SS pur yn Nwyrain neu ranbarthau deheuol Cymru lle rhagwelir perygl uchel o sychder yn y dyfodol	Ar gael
Sbriwsen Heulog y Gorllewin (<i>Tsuga heterophylla</i>)	B	N	Argymhellir tarddle o Ynys Vancouver, er y gellid defnyddio ffynonellau mwy deheuol ar safleoedd cysgodol lle mae perygl isel o rew.	Bydd ei natur ymledol yn cyfyngu ar ei defnydd ond ni ddylid ei diystyru yn y lleoliad priodol. Ystyriwch hon fel rhan o gymysgedd - cyngor pellach i ddilyn.	Heb fod ar gael ar hyn o bryd.
Ywen (<i>Taxus baccata</i>)	C	Y			Gwiriwch gyda'r planhigfeydd

Prif ac isrywogaethau prysglwyni ar gyfer mathau newydd o goetiroedd brodorol

Draenen Ddu - *Prunus spinosa*

Breuwydden - *Frangula alnus*

Rhafnwydden - *Rhamnus cathartica*

Ysgawen – *Sambucus nigra*

Gwifwrnwydden y Gors – *Viburnum opulus*

Draenen Wen – *Crataegus mongoyna*

Collen – *Corylus avellana*

Yswyddden – *Ligustrum vulgare*

Piswydden – *Euonymus europaeus*

Gwifwrnwydden – *viburnum lantana*

Merywen – *Juniperus communis*

Helygen Dribrigerog – *Salix triandra*

Helygen Bêr – *Salix pentandra*

Helygen Glustiog – *Salix aurita*

Helygen Lwyd – *Salix sinerea*

Helygen Wiail – *Salix virminalis*

Helygen Gochlas – *Salix purpurea*

Alternative sources of information on tree species choice

- **Pyatt, G, Ray, D a Fletcher, J. (2001)** FC Bulletin 124 - An Ecological Site Classification for Forestry in Britain
- **Saville, Peter S. (2013)** Silviculture of Trees used in British Forestry
- **Harmer, R, Kerr, G and Thompson, R (2010)** Y Comisiwn Coedwigaeth: Forestry Commission - Managing Native Broadleaf Woodland
- **Silvifuture** <http://www.silvifuture.org.uk/>
- **Forest Research – tree species and provenance** <http://www.forestry.gov.uk/fr/treespecies>
- **Future Trees** <http://www.futuretrees.org/>